PWYLLGOR CRAFFU LLE, CYNALIADWYEDD A NEWID HINSAWDD

DYDD IAU, 6 MEHEFIN 2024

PRESENNOL Cynghorydd K. Madge (Cadeirydd)

Cynghorwyr (Yn y Siambr):

K. Davies	S.M. Allen	T.A.J. Davies	B.D.J. Phillips

Cynghorwyr (Yn rhithwir):

D.C. Evans	T.M. Higgins	J.D. James	N. Lewis
K.V. Broom			

Roedd yr Aelodau Cabinet canlynol yn bresennol (Yn y Siambr):
Y Cynghorydd A. Lenny, yr Aelod Cabinet dros Adnoddau
Y Cynghorydd E. Thomas, yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith
Y Cynghorydd A. Vaughan Owen, yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd

Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):
R. Griffiths, Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd
N Hellier, Uwch Swyddog Treftadaeth Adeiledig
J. Edwards, Rheolwr Gwella Busnes
R. James, Cyfrifydd Grŵp
M. Runeckles, Swyddog Cefnogi Aeolodau
J. Owens, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):
J. Morgan, Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd
D. Hall-Jones, Swyddog Cefnogi Aelodau
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd

Siambr - Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP ac o bell - 10.00 - 10.55 yb

Noder: Ar ddechrau'r cyfarfod roedd yr Aelodau a'r Swyddogion wedi cadw'n ddistaw am funud er mwyn coffáu 80 mlynedd ers D-Day.

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr P. Cooper, S. Godfrey-Coles a G.B. Thomas.

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL GAN GYNNWYS UNRHYW CHWIPIAU PLEIDIAU A RODDIR MEWN YMATEB I UNRHYW EITEM AR YR AGENDA.

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch buddiannau personol na chwip waharddedig.

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

3. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

4. ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB CYFALAF A REFENIW 2023/24

Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr adroddiad monitro ariannol ar Gyllideb Refeniw a Chyllideb Gyfalaf 2023/24 y Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd a Lle a Seilwaith ar gyfer y cyfnod hyd at 29 Chwefror 2024.

Dywedwyd bod y gyllideb refeniw ar y cyfan yn rhagweld gorwariant cyffredinol o £1,280k ar ddiwedd y flwyddyn. Rhagwelwyd gwariant net yn y gyllideb gyfalaf o £15,802k o gymharu â chyllideb net weithredol o £29,179k gan roi amrywiant o £-13,377k.

Rhoddwyd sylw i'r cwestiynau/materion canlynol wrth drafod yr adroddiad:

Wrth ystyried yr adroddiad, gofynnodd y Pwyllgor am i wybodaeth ychwanegol gael ei chynnwys o fewn meysydd amrywiadau gwariant sylweddol yn adroddiadau'r dyfodol i roi gwybod i'r aelodau am y sefyllfa gyllidebol ac i alluogi craffu effeithiol ar y meysydd perthnasol. Cytunwyd y byddai adborth y Pwyllgor yn cael ei drosglwyddo i'r adrannau priodol ac atgoffwyd yr aelodau y gellid gwneud ceisiadau am adroddiadau manwl fel rhan o rôl y Pwyllgor wrth nodi tueddiadau o fewn meysydd sy'n berthnasol i'w gylch gwaith.

Mewn ymateb i'r pryderon a godwyd mewn perthynas â'r cynnydd mewn gwariant ar drydan mewn safleoedd tirlenwi sydd wedi cau, darparwyd sicrwydd bod swyddogion yn edrych ar y mater hwn ar hyn o bryd, a'r bwriad oedd nodi atebion i liniaru costau wrth symud ymlaen.

Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhaodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith, y bydd adroddiad yn ymwneud â thaliadau parcio'r Cyngor yn cael ei ystyried gan y Cabinet maes o law.

Mynegwyd pryderon ynghylch y gwariant sy'n gysylltiedig â thanddefnyddio cerbydau adrannol. Rhoddodd y Rheolwr Gwella Busnes sicrwydd i'r Pwyllgor fod adolygiad ar y gweill ar hyn o bryd, gyda'r nod o gyflwyno cerbydau adrannol sy'n benodol ar gyfer gwasanaethau er mwyn gwneud y defnydd gorau posibl ohonynt. Cytunwyd y byddai canlyniadau'r adolygiad yn cael eu rhoi i'r Pwyllgor.

Cyfeiriwyd at dangyflawniad incwm ar gyfer safleoedd trwyddedig lle nad oedd y targed yn adlewyrchu nifer y busnesau trwyddedadwy yn y sir. Eglurodd y Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd fod y gorwariant a ragwelwyd yn seiliedig ar yr incwm wedi'i ddilysu o flwyddyn i flwyddyn, a oedd bellach angen ei adolygu yng ngoleuni'r gostyngiad yn nifer y safleoedd trwyddedadwy ar draws y Sir. Cytunwyd y byddai rhagor o wybodaeth yn hyn o beth yn cael ei dosbarthu i'r Pwyllgor dros e-bost.

Mewn ymateb i ymholiad, eglurodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith i'r Pwyllgor nad oedd digon o gyllid wedi dod i law gan y Llywodraeth Ganolog a Llywodraeth Cymru i gynnal priffyrdd y sir i lefel briodol.

Mewn ymateb i ymholiad ynghylch y gost o brynu tir a'r ffioedd cysylltiedig ar gyfer Llwybr Dyffryn Tywi, cyfeiriodd yr Aelod Cabinet dros Adnoddau at y broses gymhleth a hir sy'n ofynnol i sicrhau bod cynllun uchelgeisiol yr Awdurdod yn cael ei ddarparu'n briodol. Hefyd rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor y byddai adolygiad yn ymwneud â Llwybr Dyffryn Tywi yn cael ei ystyried gan y Cabinet maes o law.

Eglurodd y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd wrth y Pwyllgor fod adolygiad arbenigol wedi'i gomisiynu i ddarparu adferiad posibl i'r materion hirdymor sy'n gysylltiedig â Chronfa Ddŵr Trebeddrod yn y Ffwrnes, Llanelli. Yn dilyn cais, cytunwyd y dylai'r Pwyllgor ystyried adroddiad diweddaru maes o law.

Gofynnwyd am ragor o wybodaeth mewn perthynas â chostau Cyfraith Sifil o fewn adran cyllidebau cyfalaf yr adroddiad, a hefyd y llithriad i Seilwaith Priffyrdd Rhydaman a nodwyd o fewn amrywiadau'r cynlluniau cyfalaf. Cytunwyd y byddai rhagor o fanylion am y materion hyn yn cael eu dosbarthu i'r Pwyllgor dros e-bost.

Mewn diweddariad i'r Pwyllgor, yn dilyn ymholiad ynglŷn â gwasanaethau parcio, cadarnhaodd y Rheolwr Gwella Busnes fod yr Awdurdod wedi cael ail gerbyd gorfodi, a oedd yn aros am gael camera wedi'i osod.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:

4.1 bod Adroddiad Monitro Cyllideb Refeniw a Chyllideb Gyfalaf 29 Chwefror 2024 yn cael ei dderbyn.

4.2 bod cais y Pwyllgor am gynnwys gwybodaeth ychwanegol o fewn y meysydd o amrywiadau gwariant sylweddol yn adroddiadau'r dyfodol yn cael ei fwydo yn ôl i'r adrannau priodol;

4.3 bod canlyniadau'r adolygiad o'r cerbydau adrannol yn cael eu darparu i'r Pwyllgor maes o law.

4.4 bod rhagor o wybodaeth am y tangyflawni o ran incwm ar gyfer safleoedd trwyddedig yn cael ei dosbarthu i'r Pwyllgor dros e-bost.

4.5 bod y Pwyllgor yn ystyried diweddariad i'r adolygiad a gomisiynwyd ynghylch y materion hirdymor sy'n gysylltiedig â Chronfa Ddŵr Trebeddrod yn y Ffwrnes, Llanelli.

4.6 bod rhagor o wybodaeth am gostau Cyfraith Sifil o fewn yr adran cyllidebau cyfalaf yn yr adroddiad, a hefyd y llithriad i Seilwaith Priffyrdd Rhydaman a nodir o fewn amrywiadau'r cynlluniau cyfalaf yn cael eu dosbarthu i'r Pwyllgor dros e-bost.

5. EFFEITHLONRWYDD YNNI A CHYNHYRCHU YNNI MEWN TAI HANESYDDOL

Cafodd y Pwyllgor adroddiad i'w ystyried ar effeithlonrwydd ynni a chynhyrchu ynni mewn perthynas â stoc adeiladau hanesyddol y sir.
Cyflwynwyd yr adroddiad yn dilyn atgyfeiriad gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau, Cartrefi ac Adfywio a oedd yn nodi gwerth adeiladau hanesyddol i Sir Gaerfyrddin, yr angen i gynnal adeiladau o'r fath yn briodol gyda'r deunyddiau a'r dulliau cywir o atgyweirio, a hynny er mwyn sicrhau cynaliadwyedd ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Roedd yr adroddiad yn manylu ar ymrwymiad yr Awdurdod i wella effeithlonrwydd ynni ei adeiladau, gan gynnwys y rhai sydd â gwarchodaeth statudol, yn unol â fframweithiau deddfwriaethol a pholisi perthnasol, er mwyn cyrraedd ei dargedau di-garbon, lleihau tlodi tanwydd a gwella iechyd pobl. Yn hyn o beth, cyfeiriwyd at ddatblygu canllawiau cynllunio atodol drafft ar dreftadaeth adeiledig a fyddai'n destun ymgynghoriad yn fuan, a datblygu cynlluniau ynni'r ardal leol a fyddai'n nodi'r newidiadau y mae eu hangen i ddatgarboneiddio'r system ynni leol yn Sir Gaerfyrddin ynghyd ag amcangyfrif lefel uchel o gostau.

Rhoddwyd sylw i'r cwestiynau/materion/sylwadau canlynol wrth drafod yr adroddiad:

Mewn ymateb i sylwadau a wnaed, cadarnhaodd yr Uwch-swyddog Treftadaeth Adeiledig fod 3 o'r 29 o ardaloedd cadwraeth ledled Caerfyrddin yn destun amodau 'Erthygl 4' a thrwy hynny'n dileu hawliau datblygu a ganiateir deiliaid tai. Yn unol â hynny, eglurwyd na fyddai unrhyw gyfyngiadau cynllunio ychwanegol ar osod Paneli Solar i'r 26 o ardaloedd cadwraeth eraill nad ydynt yn destun amodau 'Erthygl 4'. Pwysleisiwyd bod penderfyniadau o'r fath yn cael eu gwneud yn unol â deddfwriaeth a'u bod yn ystyried y gwerth cynhenid a roddwyd ar dreftadaeth adeiledig y sir.

Yn dilyn ymholiad ynghylch gofynion cyllido ar gyfer adfer adeiladau hanesyddol, cyfeiriodd y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd at Gynllun Ynni Ardal Leol drafft yr Awdurdod a oedd yn darparu'r costau ynni cyffredinol ar gyfer yr Awdurdod cyfan, ond nid oedd costau manwl ar dreftadaeth adeiledig na stoc dai hanesyddol y sir ar gael ar hyn o bryd, ond gallai fod yn faes i'w archwilio ymhellach maes o law ar ôl gweithredu'r Cynllun.

Croesawodd y Pwyllgor yr adroddiad ac roedd yr aelodau'n falch o nodi'r gefnogaeth a ddarparwyd gan yr Awdurdod i fusnesau a pherchnogion tai ledled y sir mewn perthynas ag arbed ynni a mesurau cynhyrchu ynni priodol ar gyfer adeiladau hanesyddol. Yn dilyn gwahoddiad a estynnwyd gan yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd, cytunodd y Pwyllgor i gynnal ymweliad safle â Chanolfan Tywi a oedd yn rhan o'r tîm Lle a Chynaliadwyedd ac, fel awdurdod ledled y DU, rhoddodd gyngor, hyfforddiant ac addysg ynghylch y gofal, y gwaith atgyweirio a'r gwaith addasu priodol i adeiladau hanesyddol.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:

5.1 bod yr adroddiad yn cael ei dderbyn;

5.2 bod ymweliad safle â'r Ganolfan Dreftadaeth yn cael ei gynnal gan y Pwyllgor yn ystod 2024/25;

5.3 bod adroddiad diweddaru arall yn cael ei dderbyn maes o law.

6. BLAENRAGLEN WAITH AR GYFER 2024/25

Ystyriodd y Pwyllgor, yn unol ag Erthygl 6.2 o Gyfansoddiad y Cyngor, ei Flaengynllun Gwaith drafft ar gyfer 2024/25.

Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhaodd yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd nad oedd unrhyw wybodaeth wedi dod i law i awgrymu na fyddai'r Strategaeth Farchogaeth yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor fel y nodwyd yn y Blaengynllun Gwaith.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo'r Blaengynllun Gwaith Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd ar gyfer 2024/25.

7. EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL

Cafodd y Pwyllgor restr o'r eitemau a fyddai'n cael eu hystyried yn ei gyfarfod nesaf ar 16 Gorffennaf 2024.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gytuno ar y rhestr o'r eitemau i'w hystyried yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 16 Gorffennaf 2024.

8. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 22 EBRILL 2024

PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 22 Ebrill, 2024 gan eu bod yn gywir.

_____ _____

CHAIR **DATE**

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf